# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-12-08)

**Dyddiad: 4 Mehefin 2008**
**Amser: 9:00 - 11:00am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Claire Bennett, Pennaeth yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dwr
Julia Williams, Pennaeth yr Adran Effeithlonrwydd Ynni ac Adeiladau Cynaliadwy
Kath Winnard, Y Gangen Morol

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates, Darren Millar a Karen Sinclair. Roedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod i ddirprwyo ar ran Mick Bates.

### Eitem 2: Tlodi Tanwydd yng Nghymru
### Papur: SC(3)-12-08 (p1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'i swyddogion, Claire Bennett a Julia Williams, i'r cyfarfod. Amlinellodd y Gweinidog y prif bwyntiau yn ei phapur. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn briffio yn rhoi manylion am berfformiad pob maes mewn perthynas â'r targedau a osodwyd ar gyfer cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ac i gopïo'r nodyn i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant er gwybodaeth. Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu eglurhad ynghylch ffynonellau penodol arian cyfatebol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cynllun peilot mewn perthynas â'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel.

### Eitem 3: Mesur Morol drafft y DU
### Papur: SC(3)-12-08 (p2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Kath Winnard, a ymunodd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar Fesur Morol drafft y DU. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, er mwyn llywio ei ystyriaeth o'r ddeiseb yn galw am wahardd bagiau plastig.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am ei farn ar yr egwyddor o gael cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer unrhyw newidiadau a wnaed i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn barod.